



Datblygu'r Gweithlu

Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol

2018/19

MYNEGAI

Adran		Tudalen
A	Y Bartneriaeth PDGGC (Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol) a Llywodraethu Partneriaeth PDGGC Lleol	
B	Adnoddau	
C	Trefniadau Cydweithio – gweler y Cynllun Rhanbarthol i gael manylion	
D	Ymarfer Effeithiol sy'n Dod i'r Amlwg	
E	Gwerthusiad a Rheoli Perfformiad	
F	Cyd-destun anghenion a blaenoriaethau lleol strategol	
G	Cyfeiriad Strategol	
H	Blaenoriaethau cyfredol	
I	Cynllun Hyfforddi Cymhwyso Gwaith Cymdeithasol a Hyfforddiant Ôl-gymhwyso Gwaith Cymdeithasol	

Atodiad A	Presenoldeb wedi'i gynllunio (Oedolion) 2018/19	
Atodiad B	Presenoldeb wedi'i gynllunio (Gofal Plant) 2018/19	
Atodiad B	Presenoldeb wedi'i gynllunio (Pwrpasol – ymateb i'r TNA diweddar 2017 a thrafodaethau gyda rheolwyr) 2018/19	

Mae'r cynllun hwn a'r llyfryn hyfforddiant ar gael ar y Rhyngrwyd yn:

<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Social-Services/Social-Care-Workforce-Development.aspx>

Y BARTNERIAETH

A. Partneriaeth PDGGC

Mae gan y Cyngor Bartneriaeth Strategol Hyfforddiant ar y cyd, ac mae ei aelodaeth a'i swyddogaeth wrthi'n cael ei adolygu. Bydd cylch gorchwyl newydd ar gyfer y Bartneriaeth yn cael ei gyflwyno mewn Cynllun Cyfathrebu newydd a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Ebrill 2018:

Datblygwyd y Bartneriaeth i fod yn gynhwysol ac agored i'r holl ddarparwyr cofrestredig yn Sir y Fflint, dim ots a ydynt wedi'u comisiynu neu beidio. Gall yr holl bartïon â diddordeb yn y sector gysylltu ag Allison Lowry-Phillips i gael rhagor o fanylion Allison.Lowry-Phillips@flintshire.gov.uk.

Amcanion allweddol y bartneriaeth yw:

- Gwella proffil y sector gofal, yn fewnol ac allanol.
- Cydlynu cyfleoedd hyfforddiant a datblygu.
- Rhannu arfer da e.e. yn ymwneud â recriwtio a chadw.
- Gwella mynediad i gronfeydd hyfforddi.
- Nodi'r problemau gweithlu penodol ar gyfer Sir y Fflint – tymor byr/canolig a hir.
- Rhannu gwybodaeth/darparu ymateb wedi'i gydlynu i bapurau ymgynghori.
- Ymateb i gynlluniau'r gweithlu.

B. Adnoddau

Mae gan y Cyngor Wasanaeth Datblygu'r Gweithlu sy'n cefnogi ei swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol. Darparu'r PDGGC yw rhan o gylch gorchwyl y gwasanaeth. Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i fuddsoddi yn hyfforddiant a datblygiad y gweithlu gan eu bod yn gweld hwn fel maes blaenoriaeth.

Y rhaglen cymorth hyfforddiant gan Llywodraeth Cymru yw **£445,813**. Mae hyn yn cynnwys y Grant **£312,069** a hefyd cyfraniad awdurdod lleol o **£133,744**.

C. Trefniadau gwaith ar y cyd

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol digynsail. Gwnaethpwyd gwaith helaeth i ddarparu effeithlonrwydd gwasanaeth a datblygu agweddau ar y cyd ledled Gogledd Cymru, sy'n cynnwys datblygu'r gweithlu ledled y rhanbarth. Datblygwyd Strategaeth Gweithlu Gogledd Cymru i sefydlu blaenoriaethau rhanbarthol a gwneud y mwyaf o'r agweddau a rennir mewn modd cyson.

Mae'r sector gofal cymdeithasol yn sector amrywiol a gall anghenion lleol amrywio. Mae angen i ddarpariaeth hyfforddiant fedru ymateb i hyn ac ystyried beth y gellir ei wneud yn lleol, yn rhanbarthol ac yn is-ranbarthol.

Mae angen ystyried y canlynol wrth ddatblygu'r model darpariaeth priodol:

- Mewnsoed y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
- Gwasanaethau Rhanbarthol/Isranbarthol a'u hygyrchedd i ddatblygu'r gweithlu.

- Darparu hyfforddiant arbenigol i grwpiau bychain gan gynnwys Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Cymdeithasol.
- Ymateb i gynlluniau polisi'r llywodraeth, deddfwriaeth newydd a modelau darpariaeth cenedlaethol, fel y Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol a'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
- Effeithlonrwydd gan ddefnyddio pŵer prynu nifer o Awdurdodau Lleol.
- Partneriaethau gyda darparwyr hyfforddiant eraill, yn benodol Coleg Cambria a Glyndŵr.
- Darparu Cynllun y Cyngor a'i flaenoriaethau.
- Cefnogi darparwyr i sicrhau bod ganddynt ddigon o weithwyr gofal cymdeithasol medrus a chymwys i ddarparu cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar y person.
- Cyfrannu at ddarparu'r blaenoriaethau a nodwyd yn Strategaeth Gweithlu Gogledd Cymru.

Gwaith partneriaeth. Mae cydweithio yn dibynnu ar anghenion y gweithlu. Yn Sir y Fflint, mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth Asesu Fframwaith Cymwysterau a Chredydau wedi'u darparu naill ai trwy ein canolfan asesu ein hunain neu trwy ein partneriaeth gyda Choleg Cambria.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddeunydd ac adnoddau hyfforddiant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae Sir y Fflint yn buddsoddi yn y **Partneriaeth Gradd Gwaith Cymdeithasol** trwy gyflogi Swyddog Datblygu a Hyfforddi Staff y mae ei gyfrifoldebau yn cynnwys cydlynu Cyfleoedd Dysgu Ymarfer. Gwelir hyn fel cyfrifoldeb partneriaeth, gan greu cyfleoedd am agwedd is-ranbarthol i ddiwallu anghenion dysgu myfyrwyr.

Mae Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam yn cydweithio i ddarparu gweithdai i gefnogi dysg ar ôl cymhwyso i Weithwyr Cymdeithasol sy'n astudio o fewn y fframwaith CPEL.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwmo i bartneriaeth gyda Phrifysgol Caer i ddarparu hyfforddiant a chymwysterau Iechyd Meddwl Arbenigol. Mae'r bartneriaeth rŵan yn cynnwys pob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.

Mae gwaith partneriaeth anffurfiol arall yn cynnwys:

- Darparu hyfforddiant ar y cyd gan ddefnyddio arbenigedd mewnol.
- Darparu hyfforddiant arbenigol trwy gydweithwyr Iechyd BIPBC.
- Comisiynu darparwyr lleol i deilwra hyfforddiant i ddiwallu anghenion y sector.
- Adrannau eraill fel Tai, Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd a Diogelwch.

D. Ymarfer Effeithiol sy'n Dod i'r Amlwg

Rydym yn bwriadu ymestyn y cynllun peilot a gynhaliwyd y llynedd trwy gefnogi **Prentisiaethau mewn Gofal Cymdeithasol**. Roeddem yn cynnig cyflwyniad cadarn, lleoliad gwaith a rhaglen hyfforddi i unigolion sydd â diddordeb mewn gyrfa mewn gofal cymdeithasol. Mae modiwlau hyfforddiant a ddarperir gan y Brifysgol Agored yn rhoi trosolwg o waith mewn Gofal Cymdeithasol (K101 a KZW113). Gyda'i gilydd mae'r rhain yn rhoi Tystysgrif Gofal Cymdeithasol i ymgeisydd, sy'n cael ei gydnabod gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Aseswyr Gofal Cymdeithasol.

Bob blwyddyn rydym yn cefnogi unigolion o'r gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant mewn hyfforddeiaeth i gyflawni gradd Gwaith Cymdeithasol trwy'r Brifysgol Agored dros gyfnod o 3 blynedd.

Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth – Rydym yn datblygu rhaglen o hyfforddiant hanfodol i Ymgynghorwyr Cyswllt Cyntaf ac Aseswyr Gofal Cymdeithasol yn Sir y Fflint. Mae hyn yn cynnwys yr adnodd ‘**Gwell Sgyrsiau**’ a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu fel rhaglen dreigl i gynnwys Setiau Dysgu Gweithredol fel sesiynau cefnogaeth gan gymheiriaid dilynol a gytunwyd i’w datblygu.

E. Gwerthusiad a Rheoli Perfformiad

Canlyniad ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarperir

Mae cyflawniad Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (cymwysterau QCF) a’r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol gan staff ledled y sector yn dangos y gall yr unigolion hynny ddarparu gwasanaeth o ansawdd a gydnabyddir gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Canlyniadau datblygiad gweithwyr i’r gweithlu a defnyddwyr gwasanaeth, a sut y caiff hyn ei fonitro

Bydd canlyniad ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a gynigir yn cael ei asesu gan werthusiad y cwrs a gwblheir gan gyfranogwyr. Yn y tymor canolig, gallwn asesu effeithiolrwydd wrth i reolwyr gyfathrebu sut y mae wedi’i gynnwys mewn ymarfer (adborth gan oruchwylwyr a gwerthusiad).

- Hyfforddiant Rheoli – cynhelir cyfarfodydd gyda rheolwyr yr ymgeiswyr i sefydlu/gwerthuso sut y mae eu ymarfer wedi datblygu. Ymgeiswyr QCF – cwblhau ffurflenni gwerthuso ac adborth. Rydym hefyd yn cynnal cyfweiliadau ymgeiswyr fel rhan o’r broses sicrwydd ansawdd, ac yn dilyn bob ymweliad EQA.
- Cânt hefyd gyfle i gyfarfod y Cydlynnydd Sicrwydd Ansawdd mewnol ac allanol.
- Nifer y Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyflawnir bob blwyddyn yn y gwasanaethau darparwyr (arolwg gweithlu blynyddol).
- Nifer y Cyfleoedd Dysgu Ymarfer ar gyfer Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol (Adrodd i’r Uwch Reolwyr).
- Arolygon Ôl-Gymhwyso (e.e. Gwerthusiadau Prifysgol a Cordis Bright o’r rhaglenni Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus) sy’n cynnwys ymgysylltu gyda rheolwyr i gasglu’r wybodaeth, sef prif faes diddordeb Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn y tymor hirach, nodir tystiolaeth o wybodaeth sylfaenol fel rhan o’r broses asesu. Gall unigolion ddarparu gwasanaeth o ansawdd a safon a gydnabyddir gan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Mae casgliad data gweithlu blynyddol yn darparu gwybodaeth am nifer y staff cymwys yn y sector. Mae Rheolwyr hefyd yn rhoi gwybodaeth ar anghenion hyfforddi yn eu gwasanaeth, yn aml yn cysylltu â hyfforddiant arbenigol i ddiwallu anghenion unigol e.e. ymwybyddiaeth awtistiaeth neu strôc, gofal dementia ac epilepsi.

Mae’r Tîm Monitro Contractau, fel rhan o adolygiad perfformiad darparwyr, yn cyfweld staff, ac unigolion sy’n derbyn gwasanaeth a’u gofalwyr. Mae staff yn rhoi adborth ar eu cefnogaeth rheoli, cyfleoedd datblygu a darpariaeth gwasanaeth. Gofynnir i unigolion, eu gofalwyr a’u teuluoedd am adborth ar y gweithlu ac ansawdd darpariaeth gwasanaeth.

Effeithiolrwydd a chyflawniadau'r bartneriaeth

Mae'r arolwg data gweithlu blynyddol yn rhoi tystiolaeth o lefelau cymwysterau uwch yn y sector. Yn y blynyddoedd blaenorol, bu hyn yn bennaf oherwydd cefnogaeth y Cyngor gyda'r asesiad.

Mae **Fframwaith Hyfforddiant Deilliannau Dysgu newydd (LOFT)** yn cael ei ddatblygu. Bydd hyn wedi'i gysylltu ymhellach at ddeilliannau dysgu hyfforddiant sy'n cael eu darparu a'u cynnwys mewn cronfa ddata hyfforddi newydd o fis Mehefin 2018 ymlaen. Bydd y Bartneriaeth Strategol Hyfforddiant yn cefnogi datblygiad a gweithrediad pellach y fframwaith. Dyma'r fframwaith deilliannau dysgu cyntaf sy'n cael ei ddatblygu ledled Gogledd Cymru ar gyfer Hyfforddiant yn lleol.

F. Cyfeiriad Strategol

- Mae **arolwg blynyddol Uned Data Cymru** yn dangos er bod lefelau cymwysterau uwch, bod angen cefnogaeth bellach i ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol heb y cymhwyster priodol.
- Bydd gan **Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** oblygiadau ar gyfer y sector. Byddwn yn parhau i gefnogi darparwyr cofrestredig i gynyddu lefelau staff cymwys trwy gynnig cyfleoedd hyfforddi ac asesu. Gofal yn y Cartref yw'r flaenoriaeth.
- Byddwn yn cefnogi gweithrediad y **Fframwaith Cyflwyno Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd/diwygiedig**.
- Byddwn yn alinio ein meysydd ffocws gyda blaenoriaethau strategol **Gofal Cymdeithasol Cymru a'u Strategaeth Gweithlu Cenedlaethol**. Yn y cyfnod hwn, mae'r rhain yn cynnwys gofal dementia, plant dan ofal a chefnogi'r gweithlu gofal yn y cartref i ddiwallu gofynion cofrestru.
- Byddwn yn cefnogi'r sector i recriwtio a chadw.
- Cefnogi'r Cynllun Gweithredu Treigl Cenedlaethol i ddarparu blaenoriaethau Strategaeth Gweithlu Gogledd Cymru
 - Cefnogi'r gweithlu gofal yn y cartref i baratoi i gofrestru a chefnogi gwybodaeth/swyddogaeth unigolion â chyfrifoldeb.
 - Cefnogi hyfforddiant, datblygiad a chymwysterau rheolwyr gofal cymdeithasol.
 - Cefnogi arferion gofal a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
 - Cefnogi rhaglenni cymhwyso ac ôl-gymhwyso neu waith cymdeithasol.
 - Cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol rhwng flaen i ddatblygu eu sgiliau mewn perthynas â gofal cymdeithasol.
 - Galluogi'r gweithlu i ddiwallu gofynion rheoleiddio ar gyfer cymwysterau a/neu gofrestru.

G. Blaenoriaethau Lleol

Mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), byddwn yn parhau i gefnogi'r gweithlu i gynnwys egwyddorion y Ddeddf, gan gynnwys y fframwaith canlyniadau cenedlaethol a hyfforddiant gwell sgysiau ar gyfer darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth o ansawdd uchel (IAA).

- Rydym yn datblygu rhaglen o hyfforddiant hanfodol i **Ymgynghorwyr Cyswllt Cyntaf ac Aseswyr Gofal Cymdeithasol** yn Sir y Fflint. Mae hyn yn cynnwys yr adnodd 'Gwell Sgysiau' a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru.

- Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i weithwyr gyflawni cymwysterau lechyd Meddwl arbenigol
- Ail-fuddsoddi mewn cyfleoedd i weithwyr cyfredol ennill cymwysterau proffesiynol ochr yn ochr â'r angen a nodwyd i gadw staff Gwaith Cymdeithasol.
- Sicrhau bod yr holl reolwyr yn cael eu briffio ar y swyddogaeth Unigolyn â Chyfrifoldeb a'u cefnogi i gynnal lefelau uchel o sicrwydd ansawdd, rheoli perfformiad ac iechyd a diogelwch i staff a gwasanaethau.
- Ymateb i'r ffurflenni Arolwg Gweithlu sy'n cynnwys sgiliau trosglwyddo a hyfforddi i reolwyr, cymryd risgiau cadarnhaol, arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a diogelu data (GDPR).
- Cyflwyno Hyfforddiant Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod (ACE) i gefnogi ymwybyddiaeth o wasanaethau trawma

Sgiliau Cefnogi i Weithwyr Gofal Cymdeithasol Rheng Flaen

- (a) Byddwn yn archwilio'r modelau mwyaf effeithiol ar gyfer darparu hyfforddiant a dysg yng nghyd-destun staff sy'n gweithio shifftiau, ac yn aml yn seiliedig yn y gymuned. Byddwn yn canfod agweddau cymysg sy'n hwyluso dysg.
- (b) Mae adroddiadau CIW yn darparu gwybodaeth werthfawr am anghenion hyfforddi ar draws y sector. Byddwn yn dadansoddi tueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau CIW i sicrhau ein bod yn ymateb i'r meysydd a nodwyd.
- (c) Byddwn yn parhau i rannu ein deunyddiau hyfforddiant gyda rheolwyr cofrestredig i'w cynorthwyo i ddatblygu gwybodaeth staff yn ystod cyfarfodydd tîm a diwrnodau datblygu.

Darpariaeth Iaith Gymraeg

Bydd hon yn parhau i fod yn eitem flaenoriaeth ar y rhaglen bartneriaeth leol. Rydym wedi darparu hyfforddiant ar y fframwaith strategol "Mwy Na Geiriau" ar gyfer gwasanaethau iaith Gymraeg mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg i staff gofal uniongyrchol.

Hyfforddiant Therapydd Galwedigaethol

Bydd gan bob staff Therapi Galwedigaethol fynediad i ystod o gyrsiau proffesiynol e.e. Hyfforddiant Arbenigol Addasu Cartrefi, Cynhadledd Tai, Cymdeithas Cenedlaethol Cynhadledd Therapi Galwedigaethol Paediatreg, Cynhadledd Cefn. Mae Therapyddion Galwedigaethol wedi cwblhau'r dystysgrif Hyfforddi'r Hyfforddwr mewn Codi a Symud yn Gorfforol (hyfforddiant hanfodol ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol cymwys gyda hyfforddiant atgoffa bob dwy flynedd) - bydd y cymhwyster yn parhau i gael ei gynnal.

Mae gan staff Therapi Galwedigaethol fynediad i hyfforddiant arbenigol. Gyda lansiad y fframwaith CPEL newydd ar gyfer staff Therapi Galwedigaethol, rydym yn edrych ar ddatblygu hyfforddiant rhyngddisgyblaeth i Therapyddion Galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol yn 3 blynedd cyntaf eu hymarfer.

Buddsoddi mewn Hyfforddiant QCF

Byddwn yn parhau i gynnig fynediad i gymwysterau trwy ganolfan asesu'r Cyngor neu ein partneriaeth gyda Choleg Cambria. Byddwn yn archwilio agwedd ranbarthol i'r buddsoddiad hwn.

Bydd cymwysterau eraill yn cael eu cyflawni trwy berthnasau uniongyrchol y cyflogwr gyda chanolfannau asesu eraill. Mae gan holl staff y sector gofal cymdeithasol fynediad at gyrsiau

hyfforddiant y Bartneriaeth Datblygu Gweithlu gofal cymdeithasol sy'n darparu gwybodaeth sylfaenol.

Targedau Cymwysterau Hyfforddiant Rheoli 2017/18

Bydd gennym un rheolwr sy'n dechrau'r rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol (MMDP) eleni, a dau uwch reolwr ym mlwyddyn olaf y dyfarniad hwn. Mae dau weithiwr yn cwblhau'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Hyfforddi (TDMP) ers y llynedd a hyd at dri arall yn dechrau yn y garfan o 29 yn yr hydref.

Cynllun Hyfforddi Cymhwys Gwaith Cymdeithasol a Hyfforddiant Ôl-gymhwys Gwaith Cymdeithasol

Ar hyn o bryd mae gennym 2 weithiwr ym mlwyddyn olaf eu hyfforddeiaeth ac yn cwblhau eu hastudiaethau i gymhwys fel Gweithiwr Cymdeithasol eleni. Mae gennym 4 arall sydd ym mlwyddyn gyntaf eu hyfforddeiaeth 3 blynedd ar hyn o bryd. Bob blwyddyn, rydym yn cynnal yr hyfforddeiaeth i roi cyfle i staff Sir y Fflint ymgymryd â'r dyfarniad gradd i hyfforddi fel Gweithiwr Cymdeithasol trwy'r Brifysgol Agored.

Ar gyfer ein Hyfforddiant Ôl-gymhwys i Weithwyr Cymdeithasol, mae gennym gynllun hyfforddi strwythuredig 3 blynedd yn dilyn canllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ar y gefnogaeth sydd ei hangen gan weithwyr cymdeithasol newydd gymhwys yn eu blwyddyn gyntaf hyd at gwblhau'r Dyfarniad Cyfun Porth Agored. Mae hwn yn cael ei gefnogi gan gynllun hyfforddiant cadarn i gyrsiau y dylid eu cynnal yn 3 blynedd gyntaf eu hymarfer. Mae'r cyrsiau sydd wedi'u hargymell yn y 3 blynedd gyntaf wedi'u datblygu a'u cytuno a'r deilliannau dysgu wedi'u cytuno i sicrhau cysondeb ledled Gogledd Cymru.

Gall Weithwyr Cymdeithasol sydd wedi cymhwys ers mwy na 3 blynedd wneud cais am gymwysterau proffesiynol cenedlaethol eraill yn y fframwaith Parhad Addysg a Dysg Proffesiynol (CPEL) fel Ymarferydd Profiadol, Uwch Ymarferydd neu ddyfarniad Ymgynghorydd neu'r rhaglen ddatblygu rheolwyr hyfforddi (TMDP).

Hyfforddiant Gradd Gwaith Cymdeithasol arall – Dysg Ymarfer a Myfyrwr sy'n cael eu "Cynnal"

Mae'r Cyngor yn parhau i fod wedi'u hymrwymo i Gyfleoedd Dysgu Ymarfer o ansawdd uchel ar gyfer myfyrwr gwaith cymdeithasol, ac yn parhau i gefnogi hyd at 15 o fyfyrwr ar bob lefel o'r hyfforddiant dan drefniadau partneriaeth gyda Glyndŵr a'r Brifysgol Agored. Mae diddordeb mewn cymwysterau Asesu Ymarfer perthnasol yn parhau i fod yn sefydlog gyda cheisiadau o'r sector annibynnol a gwirfoddol yn cyfrannu at ystod ac ehangder y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwr. Mae ymrwymiad parhaus i'r broses yn hyrwyddo datblygiad sgiliau i weithwyr, ac yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr gael sgiliau yn ymwneud â safonau, Codau Ymarfer Proffesiynol a safbwyntiau theoretig. Mae hefyd yn creu rhwydwaith o ymarferwyr profiadol sy'n gallu cefnogi ac asesu eraill ar gyfer yr ystod cymwysterau ôl-gymhwys.

Mae recriwtio staff newydd gymhwys i swyddi parhaol a "sesiynol" yn parhau i fod yn sefydlog, ac mae Swyddogion Gweithlu AD yn cysylltu â myfyrwr ar bob lefel i hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr.

Hyfforddiant Ôl Gymhwys Gwaith Cymdeithasol

Dyfarniad Dysgu Ymarferol

Rydym wedi parhau i gynnal y cyllid sydd ar gael i hyfforddi'r Gweithwyr Cymdeithasol a gyflogwyd gan yr Awdurdod Lleol neu asiantaethau Gwaith Cymdeithasol/Gofal Cymdeithasol, i ymgymryd â Chymwysterau Dysgu Ymarfer. Mae rhaglenni wedi'u hailddilysu, fel bod gwell "cydweddiad" â rhaglenni CPEL eraill, a chysondeb dysgu. Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio

cwrs a ddarperir gan Brifysgol De Cymru i ddarparu'r cymhwyster ond mewn partneriaeth ag adrannau hyfforddi awdurdod lleol Gogledd Cymru rydym yn datblygu cwrs newydd gyda phrifysgolion lleol.

Cyfuno/3 Blynedd Cyntaf yr Ymarfer

Mae'r Cyngor wedi ffurfioli'r broses ar gyfer mynediad i ddyfarniadau cyfun, ac o Ebrill 2018 bydd angen cadarnhad ffurfiol o barodrwydd gan y rheolwr atebol.

Mae'r Dystysgrif Graddedigion Porth Agored mewn Cyfuno Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, a ddatblygwyd gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi bod ar gael ers Mai 2013, gyda'i unfed carfan ar ddeg yn cofrestru ym mis Chwefror 2018. Mae'r Cyngor yn gallu cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol yn y Sector i gyflawni'r Dyfarniad, sydd rŵan yn orfodol mewn perthynas â gofynion cofrestru. Mae partneriaid wedi cael gwybod am y cyswllt ffurfiol gyda Chofrestru. Ar hyn o bryd mae 18 o Weithwyr Cymdeithasol ynghlwm â'r rhaglen mewn tair carfan, a 12-15 o gofrestrïadau wedi'u rhagweld ar gyfer 17/18.

Iechyd Meddwl a BIA

Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â'r Bartneriaeth AMHO Swydd Caer ar gyfer y Dyfarniad Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caer ac mae 5 gweithiwr ynghlwm â'r rhaglen ar hyn o bryd. Mae 4 gweithiwr wedi'u cofrestru ar fodiwl "cyn AMHP" i ddechrau hyfforddiant AMHO ym mis Ionawr 2019. Mae'r bartneriaeth Swydd Caer yn cynnwys mynediad i fodiwl "Aseswr Lles Gorau". Bydd ymgeiswyr yn parhau i fynychu Prifysgol Caer hyd nes ceir dilysiad ffurfiol o gwrs seiliedig yng Nghymru neu argymhellion pellach gan Gomisiwn y Gyfraith. Mae 3 gweithiwr ynghlwm â'r rhaglen 16/17, gydag 1 yn cyflawni'r dyfarniad. Bydd angen pellach yn ddibynnol ar strwythurau newydd ac ymgynghoriad gyda'r HOS perthnasol.

ADDYSG A DYSGU PROFFESIYNOL PARHAUS

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi staff sy'n dymuno cael mynediad i'r gwahanol raglenni, a gwnaethom lwyddo i gael cyllid ar gyfer y saith o staff a enwebwyd i ddechrau ym mis Hydref 2016. Mae ymgysylltu a chadw yn parhau i fod yn anghyson, ond mae'r darlun yn gwella ac nid yw cynnwys y cwrs i weld yn ffactor sy'n cyfrannu. Cwblhaodd 2 weithiwr y rhaglen Uwch Ymarfer Gwaith Cymdeithasol yn 2017. Ein bwriad yw parhau i fuddsoddi ym mhob lefel o'r rhaglenni fel modd o gefnogi datblygiad parhaus a gwella niferoedd sy'n cael eu cadw.

Atodiadau:

Rhaglan

Datblygu'r Gweithlu

Gofal Cymdeithasol

2018/19

Atodiad A	Calendr Crynodeb wedi'i Gynllunio (Oedolion) 2018/19
Atodiad B	Calendr Crynodeb wedi'i Gynllunio (Plant) 2018/19
Atodiad C	Calendr Crynodeb wedi'i Gynllunio (Pwrpasol) 2018/19

CALENDR CRYNODEB WEDI'I GYNLLUNIO (OEDOLION) 2018/19				
	TEITL Y CWRS/ARDAL	Diwrnodau	Llefydd fesul cwrs	Cyfanswm Llefydd
	DIOGELU			
	Ymwybyddiaeth Diogelu Sylfaenol (Oedolion a Phlant)	12	24	288
	Cwrs Atgoffa Ymwybyddiaeth Diogelu	6	24	144
	Diogelu Oedolion mewn Gwasanaethau Gofal Preswyl a Gofal yn y Cartref	6	24	144
	Diogelu Oedolion Lefel 3 (Polisiau a Gweithdrefnau)	4	24	96
	Oedolyn Priodol	2	24	48
	Cam-driniaeth Domestig: MARAC/DASH	4	24	96
	Deddf Galluedd Meddyliol ar gyfer Gwasanaethau Darparwyr	4	24	96
	MCA/DoLS ar gyfer Timau Gwaith Cymdeithasol	4	24	96
	IS-GYFANSWM	42		1008
	CYFFREDINOL			
	Hyfforddiant Cefnogaeth Gweithredol	12	24	288
	Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth	6	24	144
	Ymwybyddiaeth Gofalwyr	2	24	48
	Sgiliau Cofnodi ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol	4	24	96
	Pasbort Symud a Thrin	8	12	96
	Cwrs Gloywi Symud a Thrin	4	12	48
	Hyfforddiant meddyginiaeth	6	24	144
	Teleofal	4	24	96
	Hylendid Bwyd	6	24	144
	Rheoli Heintiau	6	24	144
	Dysffagia	6	24	144
	Colli synhwyrâu	3	24	72
	Camddefnyddio Sylweddau	2	24	48
	Cynllunio Gweithredu Adfer Lles	3	20	60
	IS-GYFANSWM	72		1572
	ARGENIGOL			
	Anhwylder personoliaeth	4	24	96
	Diagnosis Deuol	4	24	96
	Blinder trugaredd	2	24	48
	Anableddau Dysgu a Dementia	2	24	48

Anabledau Dysgu a Rhywioldeb	2	24	48
Hyfforddiant Cyflwyno Cymhorthydd Personol	4	24	96
Sgitsoffrenia	2	24	48
Anhwylder Deubegwn	2	24	48
Iselder mawr	2	24	48
Sepsis	2	24	48
IS-GYFANSWM	26		624
GWAITH CYMDEITHASOL PENODOL			
Porth Agored: Gweithdai Cyfuno	5	24	120
Gofal Iechyd Parhaus	1	24	24
Sylfaen Gofal Iechyd Parhaus.	3	24	72
Gweithdai Athro Ymarfer	3	24	72
IS-GYFANSWM	12		288
CYFANSWM OEDOLION	152		3492

CALENDR CRYNODEB WEDI'I GYNLLUNIO (PLANT) 2018/19

ATODIAD B

CALENDR CRYNODEB WEDI'I GYNLLUNIO (PLANT) 2018/19				
	TEITL Y CWRS/ARDAL	Diwrnodau	Llefydd fesul cwrs	Cyfanswm Llefydd
	DIOGELU			
	Ymwybyddiaeth Diogelu Sylfaenol (Oedolion a Phlant) – GWELER OEDOLION			
	Diogelu Plant ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol	4	24	96
	Cwrs Atgoffa Ymwybyddiaeth Diogelu – GWELER OEDOLION			
	Cynadleddau Achos a Grwpiau Craidd	3	24	72
	Sandstories: Arferion sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn wrth weithio gyda theuluoedd gwrthwynebol	2	24	48
	Oedolyn Priodol – GWELER OEDOLION			
	Cam-driniaeth Domestig: MARAC/DASH – GWELER OEDOLION			
	IS-GYFANSWM	9	72	216
	CYFFREDINOL			
	ACE's	2	24	48
	Hyfforddiant Cefnogaeth Gweithredol – GWELER OEDOLION	12	24	288
	Sgiliau cofnodi ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol – GWELER OEDOLION			
	Gwaith sy'n canolbwyntio ar atebion	1	24	24
	IS-GYFANSWM	15		360
	ARGENIGOL			
	Ysgrifennu Adroddiadau Dadansoddol	1	12	12
	Sgiliau Llys	2	24	48
	Cymorth Cyntaf Peditrig ar gyfer gofalwyr maeth	6	12	72
	Gweithio gyda Phobl Ifanc ag ADHD	3	24	72
	Gweithio gyda Theuluoedd Anodd, Peryglus neu sy'n Osgoi	2	24	48
	IS-GYFANSWM	11		192
	CYFANSWM PLANT	35		768

	Teitl y Cwrs/Ardal	Sesiynau a ddarperir	Nifer llefydd ar bob cwrs	Cyfanswm Llefydd
ANGHENION LLEOL ARBENIGOL				
	Datblygu olyniaeth a sgiliau hyfforddi i Reolwyr	4	12	48
	Hwyluso Cymryd Risgiau Cadarnhaol a Gwneud Penderfyniadau	3	24	72
	Cynnwys y Ddeddf SSWB i Ddarparwyr	2	12	24
	"Agwedd Seiliedig ar Gryfder", Sgiliau y mae staff eu hangen i gefnogi'r Ddeddf SSWB	4	24	96
	Hwyluso SSWB a Setiau Dysgu Gweithredol Diogelu	6	12	72
	Darparu Rhaglen Gwell Sgyrsiau (IAA)	8	24	192
	Gofal Dementia sy'n Canolbwyntio ar y Person	1	24	24
	Cefnogi Goruchwyliaeth sy'n Canolbwyntio ar y Person gyda Rheolwyr	3	12	36
	Symud a Thrin (Penodol i Therapi Galwedigaethol)	1	16	16
	Mynediad i Berthnasau Oedolion (Gofalwyr Maeth Person Cysylltiedig)	1	24	24
	Hwyluso Cylchoedd o Ddarpariaeth Cefnogaeth	4	24	96
	Darparu Sesiynau Cefnogi Unigolyn â Chyfrifoldeb i Reolwyr	2	12	24
	Darpariaeth bellach o'r trosolwg Deddf R&I	2	12	24
	Urddas a Pharch	1	24	24
CYFANSWM		40		772

Uchod mae rhestr o gyfleoedd y mae rhai angen eu datblygu ymhellach i sicrhau bod y Tîm Datblygu Gweithlu yn diwallu anghenion staff ac yn darparu'r negeseuon allweddol cywir. Bydd y sesiynau uchod yn cael eu darparu trwy setiau dysgu gweithredol, hyfforddiant ffurfiol, gwaith grŵp cyfoedion a chymorthfeydd staff.